Un fendith dyro im

Caneuon Ffydd: Rhif 164

Un fendith dyro im,
ni cheisiaf ddim ond hynny:
cael gras i'th garu di tra bwy',
cael mwy o ras i'th garu.

Ond im dy garu'n iawn
caf waith a dawn sancteiddiach,
a'th ganlyn wnaf bob dydd yn well
ac nid o hirbell mwyach.

A phan ddêl dyddiau dwys
caf orffwys ar dy ddwyfron,
ac yno brofi gwin dy hedd
a gwledd dy addewidion.

Dy garu, digon yw
wrth fyw i'th wasanaethu,
ac yn oes oesoedd ger dy fron
fy nigon fydd dy garu.

EIFION WYN, 1867–1926

MYFYRDOD

Gallwn fod yn rhai sydd yn gofyn yn aml ar i Dduw ein bendithio, heb feddwl efallai am ddim yn benodol yr hoffem ei gael. Mae Eifion Wyn yn yr emyn syml a thlws hwn yn ceisio un fendith benodol gan Dduw, sef 'cael gras i'th garu di tra bwy'. O ganolbwyntio yn ein deisyfiadau, y mae'n gweddïau yn dod yn fwy pwrpasol ac uniongyrchol. O gael y fendith benodol honno, mae Eifion Wyn yn gweld y bydd yn effeithio ar bob rhan o'i fywyd. Bydd ei ddoniau a'i waith yn cael eu sancteiddio er clod i Dduw, a bydd agosrwydd y berthynas fywiol gariadus y mae'n gofyn amdani gyda Duw yn golygu y gall bwyso ar Dduw 'pan ddêl dyddiau dwys' a phwyso ar ei Air hefyd, sef 'gwledd dy addewidion'.

Does dim yn gymhleth yng ngwaith Eifion Wyn fel bardd ac

emynydd ac mae hynny'n sicr yn gryfder ganddo yn yr emyn hwn, oherwydd, er ei symlrwydd, y mae yna ddyfnder o ymddiriedaeth. Ynddo'i hun nid yw ffydd yn fater cymhleth; mater o ymddiriedaeth syml ydyw bod Duw yn llywodraethu, yn ddigon abl i'n cynnal, a gofal ganddo amdanom. Fe geryddodd Iesu ei ddisgyblion pan oedden nhw'n rhwystro'r plant rhag dod ato a'u rhybuddio: 'pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi' (Mc. 10:15). Rhodd Duw yw ffydd, a hynny trwy ei ras, sef ei ffafr hael i ni. Nid oes yn rhaid inni gyflawni unrhyw amodau cyn ei dderbyn na chyrraedd unrhyw safon arbennig. Mae Duw yn ei roi yn rhad, dyna yw natur 'gras', ac yma mae'n hemynydd yn gwybod mai gofyn sydd raid, nid gweithio er mwyn ei gael, gan ymddiried y bydd Duw yn rhoi o'i ras iddo.

Nid eiriol ar ran neb arall na gofyn ar i'r eglwys gael dangos mwy o gariad mae Eifion Wyn, ond gofyn trosto'i hun ar i Dduw roi ei ras ef ei hun iddo i'w gynorthwyo i'w garu. Mae hi'n bwysig wrth i ni weddïo, wrth gwrs, ein bod yn cofio am anghenion eraill, ond yr un mor bwysig inni gofio am ein hanghenion a'n gwendidau ni ein hunain. Yr ydym yn synnu bod Iesu mewn cymaint o'i weddïau a gofnodir yn y Testament Newydd yn gweddïo trosto'i hun. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n ymwneud â'r gwaith mawr o farw dros bechodau'r byd. Ceir disgrifiad byw iawn o'r ymryson hwn mewn gweddi drosto'i hun yn Hebreaid 5:7: 'Yn nyddiau ei gnawd, fe offrymodd Iesu weddïau ac erfyniadau, gyda llef uchel a dagrau, i'r Un oedd yn abl i'w achub rhag marwolaeth, ac fe gafodd ei wrando o achos ei barchedig ofn.' Mae'n debyg mai osgoi marwolaeth ar y groes oedd y demtasiwn fwyaf a ddaeth i Iesu, ac am hyn y gweddïodd fwyaf pan weddïai drosto'i hun. Cawn ninnau ein galw i weddïo drosom ni'n hunain hefyd, yn enwedig yn y mannau hynny lle rydym ni'n wan ac yn agored i demtasiynau – mannau lle cawn ein temtio i wneud pethau nad ydyn nhw'n unol ag ewyllys Duw. 'Digon i ti fy ngras i' meddai'r Arglwydd wrth Paul (2 Cor. 12:9); yn sicr, mae'n ddigon i ninnau hefyd, o'i geisio a'i dderbyn.

GWEDDI

O Arglwydd, dyro dy ras i mi a fydd yn fy ngalluogi i'th garu a'th wasanaethu mewn ufudd-dod. Helpa fi i gofio am fy ngwendidau i fy hun a chofio hefyd bod dy ras di yn ddigon i mi. Yn enw Iesu. Amen.